

Polisi Cydnabyddiaeth y Cynghorau Chwaraeon 2017

Polisi Cydnabyddiaeth y Cynghorau Chwaraeon 2017

Cynnwys

1. Diffiniad o Gydnabyddiaeth	3
2. Rôl CRhC Cydnabyddedig	3
3. Crynodeb o broses y Polisi Cydnabyddiaeth	6
Ceisiadau	Error! Bookmark not defined.
Adolygiadau.....	Error! Bookmark not defined.
Dadgydnabod	Error! Bookmark not defined.
Newid disgyblaeth	6
4. Amcanion, Manteision ac Amodau Cydnabyddiaeth.....	7
Amcanion cydnabyddiaeth.....	7
Manteision cydnabyddiaeth	7
Amodau cydnabyddiaeth	8
5. Egwyddorion Cydnabyddiaeth.....	8
6. Panel Cydnabyddiaeth y DU	10
7. Proses y Cais am Gydnabyddiaeth	12
Cyn-ymgeisio.....	12
Pwrpas.....	Error! Bookmark not defined.
Proses.....	13
Meini prawf cyn-ymgeisio	13
Penderfyniad cyn-ymgeisio	15
Cais llawn	Error! Bookmark not defined.
Pwrpas.....	Error! Bookmark not defined.
Proses.....	16
Meini prawf cais llawn	Error! Bookmark not defined.
Penderfyniad cais llawn.....	17
Asesu'r ceisiadau cyn-ymgeisio a llawn	17
8. Adolygiad Cydnabyddiaeth	18
Pwrpas	Error! Bookmark not defined.
Proses	19
Meini Prawf Adolygiad Cydnabyddiaeth.....	20
Asesu Adolygiadau Cydnabyddiaeth	21
Canlyniad Adolygiad Cydnabyddiaeth	21
9. Dadgydnabod	22
Pwrpas	Error! Bookmark not defined.
Proses	22
10. Newid Disgyblaeth	22
Pwrpas	Error! Bookmark not defined.
Proses.....	23
Asesu Newid Disgyblaeth	23
Penderfyniad Newid Disgyblaeth	23
11. Proses Yn Dilyn Penderfyniadau.....	222
Cyfarfod Ar Ôl Penderfyniad.....	Error! Bookmark not defined.2
Apeliadau	Error! Bookmark not defined.2
Atodiad: Rheolau a Gweithdrefnau Apeliadau Annibynnol Cydnabyddiaeth	223

1. Diffiniad o Gydabyddiaeth

1. Mae cydnabyddiaeth yn broses sy'n cael ei rhannu gan bump o Gynghorau Chwaraeon (UK Sport, **sportscotland**, Sport England, Chwaraeon Cymru a Sport Northern Ireland) sy'n gwneud y canlynol:
 - a) Penderfynu ar y Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) sy'n gyfrifol am lywodraethu gweithgareddau chwaraeon y mae'r Cynghorau Chwaraeon yn fodlon ystyried eu cefnogi a gweithio gyda hwy.
 - b) Cydnabod statws y CRhC fel sefydliad preifat sy'n llywodraethu camp benodol drwy ganiatâd cyffredin y gamp ei hun.
2. Nid yw statws cydnabyddiaeth yn golygu bod y Cynghorau Chwaraeon wedi cymeradwyo strwythurau mewnol y sefydliad nac yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb am ei weithrediadau.
3. Nid yw cydnabyddiaeth ei hun yn rhoi hawliau neu awdurdod neu gymeradwyaeth ychwanegol gan y Cynghorau Chwaraeon. Nid rôl y Cynghorau Chwaraeon yw sefydlu neu benodi CRhC na'u rheoleiddio. Nid yw aelodaeth corff chwaraeon o Ffederasiwn Rhyngwladol yn golygu'n awtomatig y daw y corff yn gydnabyddedig fel CRhC gan y Cynghorau Chwaraeon.
4. Nid yw statws cydnabyddiaeth yn golygu o angenrheidrwydd bod CRhC yn gymwys i dderbyn cyllid gan Gyngor Chwaraeon. Ac i'r gwrthwyneb, nid yw Cyngor Chwaraeon yn cyllido corff chwaraeon yn golygu o angenrheidrwydd bod y corff chwaraeon yn gymwys i gael ei gydnabod fel CRhC.
5. Mae'r broses Adolygiad Cydnabyddiaeth yn gwirio i weld bod CRhC neu fwy nag un corff o'r fath yn parhau i fodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth.

2. Rôl CRhC Cydnabyddedig

6. Mae CRhC yn sefydliad sy'n llywodraethu ac yn gweinyddu camp ar sail genedlaethol, boed ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan (h.y. Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru), ar gyfer Prydain Fawr (h.y. Lloegr, Yr Alban a Chymru) neu ar gyfer un o'r Gwledydd Cartref yn unigol. Gall CRhC sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon weithredu ledled Iwerddon gyfan neu ar sail Talaith Ulster. Yn draddodiadol, disgrifir CRhC fel gwarcheidwaid eu camp.
7. I fod yn CRhC cydnabyddedig rhaid i sefydliad fynd drwy broses o asesiad gan y Cynghorau Chwaraeon.
8. Rhaid i CRhC ddangos bod ganddo strwythur cyfansoddiadol priodol a'i fod yn cyflawni sawl rôl y mae CRhC ar gyfer chwaraeon yn debygol o'i chyflawni er mwyn iddo ddod yn CRhC cydnabyddedig.
9. Mae disgwyl i CRhC gyflawni'r swyddogaethau canlynol fel rhan o'i faes awdurdodaeth:
 - a) Rheoli a rheoleiddio amgylchedd ei gamp;

- b) Gweinyddu arferion a chyfranogiad ei gamp;
 - c) Datblygu ei gamp;
 - d) Dylanwadu ar yr aelodau a'r sefydliadau y mae'n aelodau ohonynt.
10. Er mwyn gallu cyflawni'r swyddogaethau, mae CRhC cydnabyddedig yn debygol o ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:
- a) Paratoi a gweithredu gweledigaeth a chynllun strategol ar gyfer ei gamp a phenderfynu sut cânt eu gweithredu'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol;
 - b) Hybu ei gamp;
 - c) Rheoli rheolau a rheoliadau ei gamp, gan gynnwys gwrth-gyffuriau, amddiffyn plant a chydraddoldeb;
 - d) Gweithredu fframwaith llywodraethu ar gyfer ei gamp;
 - e) Gweinyddu swyddogion ei gamp;
 - f) Sefydlu a chynnal cysylltiadau â'r DU/Iwerddon a'r corff rheoli/ffederasiwn rhyngwladol;
 - g) Annog a meithrin cyfranogiad;
 - h) Datblygu hyfforddwyr, athletwyr, swyddogion a chyfranogwyr;
 - i) Trefnu a chynnal cystadlaethau.
11. Mae sawl CRhC wedi sefydlu wrth i bobl o fyd chwaraeon (unigolion, timau a chlybiau) ddod at ei gilydd yn wirfoddol gyda phwrpas cyffredin; annog a galluogi cyfranogwyr i fwynhau a gwneud cynnydd yn y gamp o'u dewis. Esblygodd hynny wedyn i sefydliadau aelodaeth gydag unigolion yn dod yn aelodau yn aml er mwyn gallu cystadlu yn eu camp a chael yswiriant.
12. Mae CRhC cydnabyddedig yn sefydliadau sydd wedi dangos eu bod wedi cyflawni rhagoriaeth yn eu camp a bod ganddynt drefniadaeth a llywodraethu priodol. Nod y broses gydnabyddiaeth yw galluogi'r Cynghorau Chwaraeon i asesu a yw sefydliad yn cyflawni rôl ddisgwyliedig CRhC. Nid yw'r gydnabyddiaeth ei hun yn rhoi unrhyw bwerau swyddogol i CRhC i lywodraethu ei gamp – dylai ei strwythur llywodraethu fod yn ei le eisoes; cydnabod y rôl sy'n cael ei chwarae gan y sefydliad mae cydnabyddiaeth.
13. Gall CRhC fodoli a gweithredu heb gael ei gydnabod a heb wneud cais i'r Cyngor Chwaraeon am gael ei gydnabod.

Gweithgareddau Cyffredin Corff Rheoli Cenedlaethol Cydnabyddedig

Rheoli a Rheoleiddio

Llywodraethu gweithgaredd chwaraeon unigryw

Strwythur cyfansoddiadol a hanes sefydliadol wedi'u sefydlu

Rheoleiddio a rheoli aelodau drwy reolau

Perchen ar, datblygu a rheoli rheolau ac arferion ar gyfer y gamp

Cael ei gyfreithlondeb gan ei aelodau ac felly'n cael ei lywodraethu gan yr aelodau ar gyfer yr aelodau

Gweinyddu

Goruchwylio'r strwythur cystadlu neu'r fformat ar gyfer ymarfer y gamp

Polisiau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle ar gyfer amddiffyn plant, gwrth-gyffuriau a chydaddoldeb

Rheoli risg ac yn darparu yswiriant i aelodau

Gweledigaeth sefydliadol, strategaeth a strwythur yn eu lle

Gweinyddu cymwysterau a thrwyddedau i ymarfer y gamp

Datblygu

Wedi sefydlu aelodaeth

Cynlluniau yn eu lle i gadw neu gynyddu cyfranogiad ac aelodaeth

Cyfleoedd cyfartal ar gyfer mynediad

Llwybrau datblygu talent ar gyfer cyfranogwyr, hyfforddwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr

Dylanwadu

Aelod o'r ffederasiwn rhyngwladol priodol

Cysylltiadau â'r CRhC priodol ar gyfer y gamp yn y Wlad Gartref a'r DU

Partneriaethau â sefydliadau darparu fel ysgolion, awdurdodau lleol, ymddiriedolwyr a darparwyr masnachol

3. Crynodeb o broses y Polisi Cydnabyddiaeth

14. Mae'r polisi cydnabyddiaeth yn rhoi sylw i'r prosesau canlynol:

Ceisiadau

15. Mae'r broses ymgeisio'n rhoi sylw i sut gall sefydliad heb ei gydnabod wneud cais am fod yn CRhC cydnabyddedig ar gyfer awdurdodaeth.
16. Mae'r broses ymgeisio wedi'i rhannu'n ddwy ran: cyn-ymgeisio a'r cais llawn.

Cyn-ymgeisio	Cais Llawn
Gweithgaredd Chwaraeon	Strwythur Llywodraethu
Hanes Sefydliadol	Unigryw
Strwythur Cyfansoddiadol	Gweledigaeth a Datblygiad
Aelodaeth	Datblygiad Chwaraeon
Dylanwad	
Nifer yr Aelodau	

17. Nod y cam cyn-ymgeisio yw sicrhau bod y sefydliad sy'n ymgeisio'n bodloni'r meini prawf sylfaenol cyn symud ymlaen i gam y cais llawn.
18. Mae'r cais llawn yn rhan fanylach o'r broses ymgeisio sy'n galluogi sefydliad i ddangos pam y dylai fod y CRhC cydnabyddedig ac, yn y pen draw, mae'n arwain at benderfyniad ar gydnabyddiaeth.

Adolygiadau

19. Mae'r broses adolygu cydnabyddiaeth yn rhoi sylw i sut mae CRhC cydnabyddedig yn cael ei fonitro yn erbyn y meini prawf gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth.

Dadgydnabod

20. Mae'r broses dadgydnabod yn rhoi sylw i sut gall CRhC cydnabyddedig gael ei ddadgydnabod.

Newid disgyblaeth

21. Mae disgyblaeth yn gangen o weithgaredd chwaraeon sy'n cynnwys un neu fwy o elfennau (er enghraifft, mae beicio trac yn ddisgyblaeth mewn beicio). Mae'r broses newid disgyblaeth yn manylu ar sut mae'n rhaid i CRhC

cydnabyddedig ddiweddarau ei statws yn dilyn unrhyw newidiadau i ddisgyblaethau.

4. Amcanion, Manteision ac Amodau Cydnabyddiaeth

Amcanion cydnabyddiaeth

22. Amcan cydnabyddiaeth yw adnabod gweithgareddau chwaraeon, a strwythur CRhC arweiniol sengl yn ddefnyddiol (neu strwythur unedig gyda llinellau cyfathrebu a chyfrifoldeb clir o leiaf) yn gweithredu ar lefel y DU, Prydain Fawr neu Wlad Gartref sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer materion cysylltiedig â llywodraethu a strwythurau fel y nodir yn y Ceisiadau Cydnabyddiaeth a'r Nodiadau Cyfarwyddyd. Yng Ngogledd Iwerddon gall CRhC weithredu ar sail Iwerddon gyfan neu ar sail Daleithiol Ulster.
23. Bydd y Cynghorau Chwaraeon yn cadw rhestr gynhwysfawr o CRhC a chwaraeon cydnabyddedig. Bydd y rhestr gynhwysfawr o chwaraeon cydnabyddedig gyda disgyblaethau'n cael ei diweddarau'n achlysurol ac efallai y bydd amgylchiadau'n newid ond ni fyddant yn cael eu hadlewyrchu ar y rhestr ar unwaith. Mae'r rhestr ar gael gan yr holl Gynghorau Chwaraeon (UK Sport, Sport England, **sportscotland**, Sport Northern Ireland a Chwaraeon Cymru).

Manteision cydnabyddiaeth

24. Mae manteision cydnabyddiaeth i CRhC yn cynnwys y canlynol:
 - a) Cyswllt â'u Cynghorau Chwaraeon perthnasol, er enghraifft, drwy ddefnyddio logo'r Cyngor Chwaraeon ar wefan y CRhC (sylwer mai dim ond ar gyfer CRhC Olympaidd a Pharalympaidd y caniateir defnyddio logo UK Sport); ac
 - b) Angen am adolygu'r llywodraethu'n rheolaidd a sicrhau y cedwir at safonau gofynnol yn unol â'r broses adolygu cydnabyddiaeth sydd yn ei lle.
25. Mae manteision cydnabyddiaeth i gyfranogwyr chwaraeon a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys y canlynol:
 - a) Manylu ar y sefydliadau y mae'r Cynghorau Chwaraeon yn dewis trafod â hwy ar gyfer camp benodol;
 - b) Eglurder ar strwythur y CRhC a sut mae'r corff yn gweithredu ac yn llywodraethu ei gamp, gyda rhywfaint o gysondeb o ran ceisiadau cydnabyddiaeth a'r gofynion adolygu cydnabyddiaeth (er enghraifft, awdurdodaeth ddaearyddol, cynllun datblygu, strwythurau cystadlu, ac ati);
 - c) Gwell llywodraethu, rhannu arfer da a phwyslais ar ddatblygu chwaraeon a ddylai gyfrannu hefyd at ansawdd y profiad chwaraeon i gyfranogwyr; a
 - d) Mynediad at gyllid posib. Er enghraifft, mae llawer o raglenni cyllido'n rhestru cydnabyddiaeth fel y maen prawf cymhwysedd cyntaf i ymgeiswyr.
26. Mae manteision cydnabyddiaeth i Gynghorau Chwaraeon yn cynnwys y canlynol:

- a) Gwell strwythurau a llywodraethu yn y sector chwaraeon drwy sefydliadau'n ceisio bodloni'r safonau gofynnol derbynol ar gyfer cydnabyddiaeth;
- b) Cadarnhad bod y meini prawf gofynnol yn cael eu bodloni; a
- c) Trafod parhaus gyda'r CRhC drwy'r broses adolygu cydnabyddiaeth.

Amodau Cydnabyddiaeth

- 27. I gynnal statws cydnabyddedig, mae disgwyl i CRhC sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r meini prawf adolygu cydnabyddiaeth (gweler adran 8 am y meini prawf adolygu cydnabyddiaeth).
- 28. Mae disgwyl i CRhC cydnabyddedig gydweithredu a gweithio gyda Chynghorau Chwaraeon pan fo angen ac fel sy'n briodol i'w cynorthwyo gyda phrosiectau neu fentrau ar draws y sector.
- 29. Mae disgwyl pellach i CRhC cydnabyddedig gynorthwyo'r Cynghorau Chwaraeon wrth ateb ymholiadau neu gwestiynau am y gamp neu'r CRhC ei hun.
- 30. Dyfernir statws cydnabyddiaeth gan y Cynghorau Chwaraeon ac nid yw'n hawl. Felly, mae'n ofynnol i CRhC cydnabyddedig barchu eu statws a gweithredu mewn ffordd deg a chyfartal.
- 31. Mae'n ofynnol i CRhC cydnabyddedig roi gwybod i'r Cyngor Chwaraeon yn y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestredig y CRhC ymlaen llaw am unrhyw newid a fwriedir yn y disgyblaethau yn eu campau a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw newidiadau o'r fath (ychwanegu neu ddileu).
- 32. Hefyd mae disgwyl i CRhC gydweithredu â Chyngor Chwaraeon y Wlad Gartref os bydd yn cynnal adolygiad o gydnabyddiaeth. Gall methu gwneud hynny arwain at ddadgydnabod. Ni fydd CRhC sy'n derbyn buddsoddiad blynyddol gan Gyngor Chwaraeon ac sy'n cael archwiliadau cysylltiedig â llywodraethu fel amod ar gyllid yn rhan o raglen barhaus/reolaidd o adolygiadau cydnabyddiaeth (os mai dyma'r dull o gynnal adolygiadau cydnabyddiaeth a sefydlwyd gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref). Fodd bynnag, bydd gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref hawl i gynnal adolygiad cydnabyddiaeth os yw'n credu bod hynny'n angenrheidiol. Efallai y bydd CRhC cydnabyddedig nad ydynt yn derbyn buddsoddiad blynyddol gan Gyngor Chwaraeon ac nad ydynt, felly, yn cael archwiliadau cysylltiedig â llywodraethu fel amod ar gyllid, yn rhan o raglen barhaus/reolaidd o adolygiadau cydnabyddiaeth (gan ddibynnu ar ddull o weithredu Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref briodol gydag adolygiadau cydnabyddiaeth).

5. Egwyddorion Cydnabyddiaeth

- 33. Dyma egwyddorion craidd cydnabyddiaeth:

Egwyddorion cyffredinol:

- a) Bydd y Cyngorau Chwaraeon yn cynnal ac yn hybu polisi ledled y DU ar gydnabyddiaeth ac yn gweithredu'n gasgliadol;
- b) Bydd pob Cyngor Chwaraeon yn gyfrifol am ei benderfyniadau strategol ei hun ynghylch pa sefydliadau y mae'n penderfynu eu cefnogi ac mae'r broses hon ar wahân i'r broses gydnabod;
- c) Bydd pob Cyngor Chwaraeon yn gyfrifol am sut mae'n gweithredu manylion y broses adolygu cydnabyddiaeth, ond bydd yr egwyddorion a'r safonau gofynnol yn gyson;
- d) Bydd gan ymgeisydd sydd wedi cyflwyno cais am gydnabyddiaeth neu newid disgyblaeth a wrthodir, neu CRhC sy'n cael ei ddadgydnabod, hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad;
- e) Mae'r polisi wedi cael ei ddatblygu a'i gefnogi gan y pum Cyngor Chwaraeon ac fe'i gweithredir yn gyson cyn belled ag y mae hynny'n bosib. O dan amgylchiadau eithriadol, gall y dehongli a'r darparu manwl amrywio ryw ychydig yn unol â'r strategaethau a'r polisiau a gymeradwyir gan Fyrddau'r Cyngorau Chwaraeon a'r amgylcheddau maent yn gweithredu ynddynt.

Egwyddorion gweithgaredd chwaraeon:

- f) Seilir y penderfyniad ynghylch beth yw gweithgaredd chwaraeon ar ddiffiniad yn Siarter Chwaraeon Ewropeaidd Cyngor Ewrop 1992 (fel yr adolygydd yn 2001):

“Sport means all forms of physical activity which, through casual or organised participation, aim at expressing or improving physical fitness and mental well-being, forming social relationships or obtaining results in competition at all levels.”

- g) Gan fod gweithgareddau chwaraeon yn gallu cynnwys nifer o wahanol ddisgyblaethau, pan dderbynnir ceisiadau ar gyfer CRhC sydd hefyd yn cyfuno gweithgaredd chwaraeon newydd, byddwn yn ystyried a fyddai'n well ei gydnabod fel disgyblaeth mewn gweithgaredd chwaraeon presennol ac a yw'r weithgaredd yn cael ei gydnabod ar wahân fel gweithgaredd neu fel disgyblaeth yn rhan o weithgaredd presennol ar lefel ryngwladol.

Egwyddorion Corff Rheoli Cenedlaethol:

- h) Mae gan bob un o Gynghorau Chwaraeon y Gwledydd Cartref awdurdod i gydnabod CRhC o Wlad Gartref am weithgaredd chwaraeon cydnabyddedig, ond gan ddefnyddio'r un meini prawf ag ar gyfer unrhyw CRhC yn y DU neu Brydain Fawr; ac
- i) Os caiff CRhC ei ddadgydnabod am unrhyw reswm, ni fydd hyn fel rheol yn arwain at ddadgydnabod y gweithgaredd chwaraeon oni bai fod y dadgydnabod yn gysylltiedig â'r gweithgaredd chwaraeon ddim yn bodloni'r meini prawf mwyach ar gyfer y Gweithgaredd Chwaraeon neu'r Unigrywiaeth a amlinellir yn y polisi hwn.

6. Panel Cydnabyddiaeth y DU

34. Mae Panel Cydnabyddiaeth y DU yn rheoli'r broses gydnabod ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a CRhC.
35. Mae Panel Cydnabyddiaeth y DU yn cynnwys Swyddog(ion) a enwebir o bob un o'r pump o Gyngorau Chwaraeon. Bydd un swyddog a enwebir (neu gall y rôl hon gael ei rhannu rhwng sawl swyddog) o bob Cyngor Chwaraeon yn ystyried pob cais, ond maent yn debygol o ymgynghori â chydweithwyr eraill yn eu sefydliadau wrth ffurfio barn. Dim ond ar gyfer penderfyniadau ynghylch chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd mae rôl UK Sport yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd.
36. Mae Panel Cydnabyddiaeth y DU yn adrodd yn ôl i'r canlynol:
- Y Prif Swyddogion (yng nghyfarfod y Prif Swyddogion) ar gyfer penderfyniadau polisi. Mae hyn yn cynnwys Prif Weithredwyr pob un o'r pum Cyngor Chwaraeon;
 - Byrddau'r Cyngorau Chwaraeon (drwy bob aelod o'r Panel) ar gyfer cymeradwyo'r argymhellion cydnabyddiaeth.
37. Mae Panel Cydnabyddiaeth y DU yn gyfrifol am y canlynol:
- Datblygu a gweithredu'r polisi a'r broses gydnabod;
 - Rheoli ceisiadau ar gyfer CRhC a gweithgareddau chwaraeon newydd;
 - Rheoli'r broses adolygu cydnabyddiaeth;
 - Datblygu, gweithredu a rheoli'r broses ddadgydnabod;
 - Rheoli newidiadau i ddisgyblaethau ar gyfer CRhC cydnabyddedig.
38. Mae gan Banel Cydnabyddiaeth y DU awdurdod i wneud y canlynol:
- Cymeradwyo yn y cam cyn-ymgeisio heb ofyn am gymorth Byrddau'r Cyngorau Chwaraeon. Pŵer i wrthod yn y cam cyn-ymgeisio yw hwn os nad yw'r ceisiadau'n bodloni'r meini prawf cyn-ymgeisio;
 - Argymhell cymeradwyo neu wrthod ar gyfer ceisiadau llawn a gyflwynir wedyn ar gyfer penderfyniad i'r Bwrdd Cyngor Chwaraeon priodol;
 - Gweinyddu Adolygiadau Cydnabyddiaeth. Fodd bynnag, penderfynir ar ddadgydnabod CRhC gan Fyrddau'r Cyngorau Chwaraeon (fel yn achos cais llawn). Nid oes disgwyl i hyn ddigwydd yn rheolaidd.
39. Gall Panel Cydnabyddiaeth y DU wneud penderfyniad yn y cam cyn-ymgeisio ar e-bost (gydag un bleidlais i bob Cyngor Chwaraeon) ac nid oes rhaid cyfarfod yn gorfforol. Bydd isafswm o bedwar aelod o'r Panel yn bresennol ar gyfer y cyfarfod i fod â chworwm (e.e. ar gyfer newid i bolisi), a rhaid i un aelod fod o

UK Sport pan wneir penderfyniad ynghylch Camp Olympaidd neu Baralympaidd sy'n gweithredu ledled y DU.

7. Y Broses Ymgeisio am Gydnabyddiaeth

Cam 1: Gofyn am ffurflen cyn-ymgeisio

Cysylltu â Chyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae'r pencadlys neu'r swyddfa gofrestrdig wedi'i lleoli i gael ffurflen cyn-ymgeisio.

Cam 2: Llenwi a chyflwyno ffurflen cyn-ymgeisio

Llenwi ac anfon ffurflen cyn-ymgeisio at Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae'r pencadlys neu'r swyddfa gofrestrdig wedi'i lleoli.

Asesiad Cyn-ymgeisio a Phenderfyniad

Ar gyfer CRhC sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth yn awdurdodaeth Gwlad Gartref, gwneir yr asesiad a'r penderfyniad gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref ar gyfer yr awdurdodaeth honno. Gwahoddir Panel Cydnabyddiaeth y DU i gyflwyno sylwadau ond gwneir y penderfyniad gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref ar gyfer yr awdurdodaeth honno.

Ar gyfer CRhC y DU, Prydain Fawr, Olympaidd neu Baralympaidd, asesir y cais gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestrdig y sefydliad sy'n ymgeisio wedi'i lleoli. Anfonir argymhelliad at Banel Cydnabyddiaeth y DU ac wedyn gwneir y penderfyniad gan Banel Cydnabyddiaeth y DU.

Cymeradwyo

Cymeradwyo gydag amodau ar gyfer cais llawn

Heb gymeradwyo

Cam 4: Gwahoddiad i fynychu cyfarfod briffio i drafod y broses ymgeisio llawn

Bydd hwn gyda Phanel Cydnabyddiaeth y DU ar gyfer CRhC yn y DU neu Brydain Fawr. Ar gyfer CRhC sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth yn awdurdodaeth un o'r Gwledydd Cartref bydd y cyfarfod gyda dim ond Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref ac nid y Panel Cydnabyddiaeth llawn. Bydd ffurflen y cais llawn yn cael ei darparu yn y cyfarfod hwn.

Apêl (gweler Atodiad 1)

Cam 5: Llenwi a chyflwyno ffurflen Cais Llawn

Llenwi ac anfon ffurflen cais llawn at Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae'r pencadlys neu'r swyddfa gofrestrdig wedi'i lleoli.

Asesu a Phenderfyniad y Cais Llawn

Ar gyfer CRhC sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth yn awdurdodaeth Gwlad Gartref, gwneir yr asesiad a'r penderfyniad gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref ar gyfer yr awdurdodaeth honno. Gwahoddir Panel Cydnabyddiaeth y DU i gyflwyno sylwadau ond gwneir y penderfyniad gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref ar gyfer yr awdurdodaeth honno. Mae Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref yn gwneud argymhelliad l'w Fwrdd a gwneir y penderfyniad gan Fwrdd Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref.

Ar gyfer CRhC y DU, Prydain Fawr, Olympaidd neu Baralympaidd, asesir y cais gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestrdig y sefydliad sy'n ymgeisio wedi'i lleoli. Anfonir argymhelliad at Banel Cydnabyddiaeth y DU. Mae'r Panel yn gwneud argymhelliad ynghylch y penderfyniad i bob un o'r Byrddau priodol gan ddibynnu ar awdurdodaeth y sefydliad sy'n ymgeisio (UK Sport, Sport England, Chwaraeon Cymru, Sport Northern Ireland, a sportscotland). Rhaid i'r penderfyniad ar draws Byrddau priodol y Cyngorau Chwaraeon fod yn unfrydol.

Cymeradwyo

Heb gymeradwyo

Rhestru fel CRhC cydnabyddedig a chadw at amodau'r gydnabyddiaeth.

Apêl (gweler Atodiad 1)

Cyn-ymgeisio

Pwrpas

40. Pwrpas y broses cyn-ymgeisio yw gwerthuso a oes gan y sefydliad achos didwyll dros ystyriaeth lawn i gydnabyddiaeth, a chael gwared ar y ceisiadau hynny nad ydynt yn bodloni'r gofynion mwyaf sylfaenol.

Proses

41. Bydd yn ofynnol i bob sefydliad sy'n mynegi bwriad i wneud cais am gydnabyddiaeth fynd drwy'r broses cyn-ymgeisio.
42. Mae ceisiadau'n cyfuno cais am gydnabyddiaeth i weithgareddau chwaraeon a'r CRhC i lywodraethu'r gweithgaredd hwnnw. Os yw gweithgaredd chwaraeon wedi'i gydnabod eisoes, ond nad oes CRhC cydnabyddedig, bydd cais ar gyfer cydnabod CRhC yn unig yn cael ei dderbyn ond bydd y cam cyn-ymgeisio'n ofynnol o hyd.
43. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflen cyn-ymgeisio sydd ar gael ar gais gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestrdig y CRhC. Rhaid cyflwyno'r ffurflen, ac unrhyw ddogfennau ategol, yn electronig. Gall y Cynghorau Chwaraeon ofyn am ddogfennau neu ymatebion ychwanegol ar gyfer materion penodol sy'n gysylltiedig â'r meini prawf ar ddechrau'r broses ymgeisio neu fel rhan o'r asesiad.
44. Rhaid cyflwyno'r ffurflenni cyn-ymgeisio i Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestrdig y CRhC ac fel rheol fe'i hasesir gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref honno. Gall ceisiadau gan gyrff ar gyfer Iwerddon gyfan fod yn eithriad i hyn, gyda'u pencadlys yn Nulyn efallai ond yn cael eu hasesu gan Sport Northern Ireland.
45. Yn y cam hwn, nid yw'r Cynghorau Chwaraeon yn debygol o wneud cais am gyfarfod ffurfiol gyda'r ymgeisydd, ond y Cynghorau Chwaraeon sydd â'r disgrisiwn yn y cyswllt hwn.

Meini prawf cyn-ymgeisio

- a) **Gweithgaredd chwaraeon:** Os yw gweithgaredd chwaraeon newydd yn cael ei ystyried, rhaid iddo fodloni'r diffiniad o chwaraeon yn Siarter Chwaraeon Ewropeaidd Cyngor Ewrop 1992 (fel yr adolygwyd yn 2001):

“Sport means all forms of physical activity which, through casual or organised participation, aim at expressing or improving physical fitness and mental well-being, forming social relationships or obtaining results in competition at all levels.”

Fel arweiniad, bydd y Cynghorau Chwaraeon yn rhoi pwyslais ar y gweithgarwch corfforol dynol sy'n gysylltiedig pan gynhelir y gweithgaredd chwaraeon ac nid y gweithgarwch wrth baratoi ar gyfer y gweithgaredd chwaraeon, neu pan ddaw i ben. Dylai pwrpas y gweithgaredd fod ar gyfer chwaraeon yn unig, fel y diffinnir uchod, ac nid fel cyfrwng i hynny. Ystyr

hyn yw bod y gweithgaredd yn cael ei gynnal gyda chwaraeon yn brif nod iddo ac nid fel pwrpas eilaidd e.e. mae garddio fel rheol yn cynnwys ymdrech gorfforol ond mae'r gweithgarwch corfforol wrth arddio'n cael ei wneud i gynnal a chadw gardd a'i hymddangosiad neu i dyfu llysiau, ond mae'r gweithgarwch corfforol wrth chwarae pêl droed ar gyfer y gêm bêl droed ei hun a dim rheswm arall.

Yn ychwanegol at hyn, ystyrir ystyriaethau moesegol. Er enghraifft, rhaid dangos nad oes unrhyw rwystrau'n atal cymryd rhan y gellid eu hystyried fel mynediad anghyfartal. Hefyd rhaid i'r gweithgaredd fod yn un sydd heb ei wahardd mewn unrhyw ffordd gan gyfraith y DU. Os yw'r Cyngorau Chwaraeon yn teimlo bod materion moesegol neu foisol yn gysylltiedig â chwarae gweithgaredd, sy'n golygu na fyddai eisiau bod yn gysylltiedig ag ef, bydd materion o'r fath yn cael eu hystyried.

- b) **Hanes y sefydliad:** Fel rheol rhaid i'r CRhC fod wedi bod yn gweithredu am isafswm o ddwy flynedd a'r dystiolaeth o hynny fydd cyfrifon wedi'u hardystio neu eu cymeradwyo'n briodol am y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf a chofnodion CCB y ddwy flynedd ddiwethaf. Gall y cyfrifon fod wedi'u hardystio, eu harchwilio neu eu cymeradwyo gan Fwrdd y CRhC. Bydd y Cyngorau Chwaraeon yn ystyried ildio'r gofyniad cofnodion CCB a chyfrifon am ddwy flynedd os ffurfir sefydliad(au) newydd drwy uno neu wahanu CRhC cydnabyddedig presennol, os gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy gyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol.
- c) **Strwythur cyfansoddiadol:** Hefyd dylai'r CRhC fod â chyfansoddiad neu femorandwm ac erthyglau cwmni sy'n berthnasol i'r awdurdodaeth mae'n gweithredu ynddi (h.y. Lloegr, Cymru, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon). Dylai'r CRhC ddangos gweithdrefnau rheoli a llywodraethu cadarn yn unol â'r Ceisiadau Cydnabyddiaeth a'r Nodiadau Cyfarwyddyd. Rhaid darparu rhestr lawn o aelodau'r Bwrdd a rhaid i gyfansoddiad y Bwrdd fod yn glir.
- d) **Aelodaeth:** Rhaid i'r CRhC ddangos ei fod yn aelod o CRhC y DU (neu Brydain Fawr neu Iwerddon) ar gyfer ei gamp, a'r corff rhyngwladol ar gyfer ei gamp (os oes un yn bodoli). Fel arweiniad, ffafrir ffederasiwn rhyngwladol yn y cyswllt hwn, wedi'i gydnabod gan y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol neu Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad neu'n gysylltiedig ag ef.
- e) **Dylanwad:** Rhaid i'r CRhC ddangos ei fod yn gorff arweiniol ar gyfer y gweithgaredd chwaraeon yn ei awdurdodaeth, bod ganddo ddylanwad ledled y gweithgaredd chwaraeon, a'i fod yn cydweithredu â sefydliadau eraill yn ei gamp, neu fod gan sefydliadau eraill ddylanwad minimal yn y gamp.

Rhaid i'r gweithgaredd chwaraeon, lle mae hynny'n briodol, gael ei ddiffinio gan gyfres o reolau a dderbynnir ledled y gamp, a dylai'r CRhC fod mewn sefyllfa i berchnogi, rheoli neu ddylanwadu ar y rheolau. Os nad yw rheolau'n briodol, rhaid i'r CRhC ddarparu diffiniad clir o beth yw'r gweithgaredd a thystiolaeth bod y diffiniad hwn yn cael ei dderbyn yn gynhwysfawr yn ei awdurdodaeth.

Dim ond un CRhC all gael ei gydnabod ar gyfer awdurdodaeth benodol h.y. mae hyn yn caniatáu ar gyfer un CRhC ledled y DU, un corff yn Lloegr,

un corff yng Nghymru, un corff yn yr Alban ac un corff yng Ngogledd Iwerddon neu un corff ar gyfer Iwerddon gyfan, lle maent i gyd yn bodoli, i gael eu cydnabod ochr yn ochr â'i gilydd. Os oes CRhC arall yn gweithredu yn yr un awdurdodaeth, dylai'r ymgeisydd ddangos ei fod mewn sefyllfa well na'r lleill i lywodraethu a datblygu ei gamp. Os bydd CRhC yn gwneud cais am gydnabyddiaeth fel CRhC ar gyfer camp ble ceir CRhC cydnabyddedig eisoes yn ei awdurdodaeth, bydd rhaid i'r CRhC ddangos bod ganddo fwy o ddylanwad a chyflwyno achos iddo fod y CRhC cydnabyddedig ar gyfer yr awdurdodaeth ac, os yw hynny'n briodol, esbonio pam fod y CRhC mewn grym yn llai abl i gynrychioli'r gamp.

- f) **Nifer yr aelodau:** Rhaid i'r CRhC allu dangos tystiolaeth o lefel aelodaeth bresennol (aelodau unigol) sy'n fwy na'r trothwyon canlynol (gan ddibynnu ar yr awdurdodaeth):
- i. Y DU: 1,650
 - ii. Prydain Fawr: 1,500
 - iii. Lloegr: 750
 - iv. Yr Alban: 500
 - v. Cymru: 250
 - vi. Gogledd Iwerddon: 150

Nodir awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o ddangos tystiolaeth o lefelau aelodaeth yn y nodiadau cyfarwyddyd gyda'r ffurflen gais a gallent gynnwys y canlynol:

- i. Cyfrif yr aelodau o'r bas data aelodaeth.
- ii. Amcangyfrifon gwybodus, yn seiliedig ar nifer y clybiau a nifer nodweddiadol o aelodau ym mhob clwb.
- iii. Llythyr gan gorff cysylltiedig, yn cadarnhau nifer yr aelodau neu'r aelodau sydd wedi ymaelodi.
- iv. Amcangyfrif yn seiliedig ar refeniw y ffioedd aelodaeth y flwyddyn, wedi'i rannu yn ôl y gost nodweddiadol i bob aelod.

Efallai y bydd y Cynghorau Chwaraeon yn ildio'r gofyniad hwn o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, ar gyfer chwaraeon Olympaidd, gemau Cymanwlad neu Baralympaidd, neu chwaraeon sydd wedi dangos twf sylweddol ac sydd â chynlluniau i ehangu ymhellach. Bydd hyn yn unol â disgresiwn y Cynghorau Chwaraeon a gyda chymeradwyaeth Panel Cydnabyddiaeth y DU.

Penderfyniad cyn-ymgeisio

46. Ceir tri chanlyniad posib ar gyfer asesu yn y cam cyn-ymgeisio:

- a) Cymeradwyo
Gwahoddir y CRhC i symud ymlaen i gam y cais llawn (nid yw cymeradwyaeth yn y cam cyn-ymgeisio'n cyfateb i gydnabyddiaeth);
- b) Heb gymeradwyo
Bydd CRhC nad ydynt yn cael eu cymeradwyo'n derbyn hysbysiad gwrthod a fydd yn manylu ar y meini prawf na chafodd eu bodloni yn y cais. Bydd cyn-ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ailymgeisio ar ôl i gyfnod o amser fynd heibio. Penderfynir ar y cyfnod o amser gan Banel

Cydnabyddiaeth y DU gan ddibynnu ar raddfa'r gwaith sydd ei angen i wella'r cais;

- c) Cymeradwyo gydag amodau
Dylid bodloni'r holl feini prawf cyn-ymgeisio; fodd bynnag, efallai y bydd y Cynghorau Chwaraeon, o dan rai amgylchiadau, yn defnyddio eu disgresiwn i ganiatáu i gais nad yw'n bodloni'r holl feini prawf yn llwyr symud ymlaen i gam y cais llawn ar yr amod ei fod yn bodloni'r holl feini prawf syn cwblhau'r broses. Mae hyn yn unol â disgresiwn Panel Cydnabyddiaeth y DU a dim ond lle mae modd rhoi sylw'n rhwydd i fethu bodloni maen prawf neu feini prawf, oddi mewn i amserlen resymol, y mae'n debygol o ddigwydd.

Cais llawn

Pwrpas

47. Pwrpas y cais llawn yw rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddangos pam mae yn y sefyllfa orau i fod y CRhC cydnabyddedig.

Proses

48. Gwahoddir y CRhC sy'n llwyddiannus yn y cam cyn-ymgeisio i gyfarfod Panel Cydnabyddiaeth y DU i drafod y broses ymgeisio llawn ac i fynd drwy'r gofynion cyn cyflwyno cais llawn. Ar gyfer CRhC sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth yn un o'r Gwledydd Cartref, bydd y cyfarfod hwn gyda'r Wlad Gartref honno. Ar gyfer CRhC sy'n gwneud cais am gydnabyddiaeth fel y corff ar gyfer y DU neu Brydain Fawr, bydd y cyfarfod hwn gyda Phanel Cydnabyddiaeth llawn y DU.
49. Rhoddir ffurflen gais y cais llawn a'r nodiadau cyfarwyddyd i'r ymgeisydd ar ôl y cyfarfod. Bydd y CRhC yn ei llenwi ac yn ei chyflwyno'n electronig, fel y ffurflen cyn-ymgeisio. Rhaid darparu unrhyw ddogfennau ategol yn electronig hefyd. Gall y Cynghorau Chwaraeon ofyn am ddogfennau neu ymatebion ychwanegol ar gyfer materion penodol sy'n gysylltiedig â'r meini prawf ar ddechrau'r broses ymgeisio llawn neu fel rhan o'r asesiad.

Meini prawf y cais llawn

- a) **Strwythur llywodraethu:** Dylai'r CRhC fodloni'r safonau llywodraethu gofynnol a dylai allu dangos tystiolaeth o ddatganiadau ar wrth-gyffuriau, amddiffyn, cydraddoldeb, cwynion a gwrthdaro buddiannau sy'n berthnasol i'r Gwledydd Cartref mae'n gwneud cais am awdurdodaeth ynddynt.

Os yw gweithgaredd chwaraeon yn cyflwyno risg o anaf, dylai'r CRhC ddangos ei fod wedi rhoi mesurau ar waith i leihau a rheoli'r risg i gyfranogwyr a'i fod wedi sefydlu polisïau priodol i reoli'r risg (gall hyn gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus os yw hynny'n briodol).

- b) **Unigrywiaeth:** Ni ddylai'r gweithgaredd chwaraeon fod yn amrywiad ar weithgaredd chwaraeon cydnabyddedig presennol. Os yw gweithgaredd chwaraeon yn debyg i un arall ond wedi datblygu statws diwylliannol annibynnol arwyddocaol, efallai y byddwn yn ystyried ei dderbyn. Mae hyn

yn debygol iawn o fod yn berthnasol i chwaraeon wedi'u sefydlu sydd wedi'u cydnabod eisoes.

- c) **Gweledigaeth a datblygiad y sefydliad:** Dylai'r CRhC allu dangos bod ganddo strategaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer ei drefniadaeth a bod ganddo strwythurau yn eu lle i gynnal ei effeithiolrwydd fel CRhC ar gyfer ei gamp.
- d) **Datblygiad chwaraeon:** Rhaid i'r CRhC ddangos bod ganddo gynllun ar gyfer hybu'r gweithgaredd chwaraeon sydd wedi'i gymeradwyo gan ei Fwrdd. Dylai'r cynllun ganolbwyntio ar y gamp, ei datblygiad a'i lefelau cymryd rhan, gan wasanaethu'r gamp gyfan, nid dim ond ei sylfaen aelodaeth, a chreu cysylltiadau â chyfranogwyr anffurfiol. Rhaid iddo allu dangos llwybrau at ddatblygu ar gyfer cyfranogwyr, hyfforddwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr.

Mewn unrhyw weithgaredd lle mae cystadlu'n bosib, rhaid i'r ymgeisydd ddangos ei fod wedi sefydlu a'i fod yn rheoli a/neu'n dylanwadu ar y strwythur cystadlu sy'n galluogi cyfranogwyr i gystadlu ar lefel leol, genedlaethol a/neu ryngwladol.

Ceir rhagor o wybodaeth am beth ddylid ei ddarparu yn y nodiadau cyfarwyddyd ar y ffurflen gais.

Penderfyniad y cais llawn

50. Ceir dau ganlyniad i broses y cais llawn:

- a) Cymeradwyo
Bydd CRhC a gymeradwyr yn cael gwybod ei fod wedi llwyddo gan ddefnyddio llythyr safonol sy'n cynnwys y canlynol:
- i. Cadarnhad o beth yw ystyr cydnabyddiaeth (brandio, marchnata, bod ar y rhestr cydnabyddiaeth ac ati);
 - ii. Manylion am broses yr Adolygiad Cydnabyddiaeth;
 - iii. Gofynion eraill: gan gynnwys y gofyniad i hysbysu Cyngorau Chwaraeon am unrhyw newid mewn disgyblaeth.
- b) Heb gymeradwyo
Bydd CRhC aflwyddiannus yn derbyn llythyr gwrthod a fydd yn manylu ar y maen prawf neu'r meini prawf na chafodd eu bodloni yn y cais llawn.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ailymgeisio ar ôl i gyfnod o amser fynd heibio. Penderfynir ar y cyfnod o amser gan Banel Cydnabyddiaeth y DU gan ddibynnu ar raddfa'r gwaith sydd ei angen i wella'r cais.

Asesu ceisiadau cyn-ymgeisio a llawn

51. Lleoliad pencadlys neu swyddfa gofrestredig yr ymgeisydd yw'r ffactor sy'n penderfynu Cyngor Chwaraeon pa Wlad Gartref fydd yn cynnal yr asesiad. Er enghraifft, os yw pencadlys neu swyddfa gofrestredig sefydliad yn Lloegr, asesir ei gais fel rheol gan Sport England.
52. Bydd Panel Cydnabyddiaeth y DU yn ystyried pob cais cyn-ymgeisio. Bydd yn penderfynu ynghylch gwrthod ceisiadau cyn-ymgeisio sy'n ymwneud â chydabod gweithgareddau chwaraeon newydd, neu eu hanfon ymlaen i gais llawn. Bydd pob penderfyniad ynghylch cydnabod CRhC yn cadw at y protocol ym mharagraff 54.
53. Bydd Byrddau'r Cyngorau Chwaraeon yn ystyried pob cais llawn yn unol ag argymhellion Panel Cydnabyddiaeth y DU. Bydd pob penderfyniad ynghylch cydnabod CRhC yn cadw at y protocol ym mharagraff 54. Bydd pob penderfyniad ynghylch cydnabod gweithgareddau chwaraeon newydd yn cadw at y protocol ym mharagraff 54.
54. Awdurdodaeth y CRhC yw'r ffactor sy'n penderfynu Bwrdd (Byrddau) pa Gyngor Chwaraeon fydd yn cymeradwyo'r penderfyniad i gydnabod CRhC, fel a ganlyn:
 - a) Awdurdodaeth mewn un Gwlad Gartref yn unig - Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref berthnasol.
 - b) Awdurdodaeth ym Mhrydain Fawr– Sport England, sportscotland a Chwaraeon Cymru.
 - c) Awdurdodaeth yn y Deyrnas Unedig – Sport England, sportscotland, Chwaraeon Cymru a Sport Northern Ireland.
 - d) Chwaraeon a CRhC Olympaidd neu Baralympaidd – UK Sport, Sport England, sportscotland, Chwaraeon Cymru a Sport Northern Ireland.
55. Heb ystyried awdurdodaeth y CRhC sy'n ymgeisio, gwneir y penderfyniadau ynghylch cydnabod gweithgareddau chwaraeon newydd gan bedwar Cyngor Chwaraeon y Gwledydd Cartref bob amser (ac UK Sport os yw'r cais yn ymwneud â champ Olympaidd neu Baralympaidd).
56. Rhaid i benderfyniadau Byrddau'r Cyngorau Chwaraeon (lle mae mwy nag un Bwrdd Cyngor Chwaraeon yn cymeradwyo'r penderfyniad) fod yn unfrydol er mwyn cymeradwyo'r cais. Os nad yw'n unfrydol, cyfeirir y cais i sylw Grŵp Prif Swyddogion y Cyngorau Chwaraeon ar gyfer trafod ac adolygu pellach. Bydd y Prif Swyddogion yn ailystyried y cais gan feddwl am y rhinweddau neu'r problemau a drafodwyd gan bob Bwrdd unigol wrth ddod i benderfyniadau gwahanol. Os ceir consensws wedyn, bydd y Prif Swyddogion yn gwneud argymhelliad i'w Byrddau perthnasol ar gyfer eu hystyriaeth. I osgoi unrhyw amheuaeth, bydd rhaid wrth unfrydedd o hyd er mwyn cymeradwyo'r cais.

8. Adolygiad Cydnabyddiaeth

Pwrpas

57. Nod adolygiad cydnabyddiaeth yw sicrhau y dylai CRhC gadw ei statws cydnabyddedig. Mae'n amod ar gydnabyddiaeth y dylai CRhC barhau i fodloni'r meini prawf adolygu cydnabyddiaeth.
58. Ni fydd CRhC sy'n derbyn buddsoddiad blynyddol gan Gyngor Chwaraeon, ac sy'n cael archwiliadau cysylltiedig â llywodraethu fel amod ar y cyllid hwnnw'n rhan o raglen barhaus o Adolygiadau Cydnabyddiaeth (os mai dyma'r math o raglen adolygu a weithredir gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref). Mae CRhC sy'n derbyn cyllid Gyngor Chwaraeon yn debygol o fod yn cael archwiliadau sicrwydd rheolaidd a manwl eisoes. Fodd bynnag, ceidw Cynghorau Chwaraeon y Gwledydd Cartref yr hawl i gynnal adolygiad cydnabyddiaeth mewn perthynas â materion penodol nad ydynt yn cael sylw efallai fel rhan o archwiliadau sicrwydd unrhyw gyllid.
59. Efallai y bydd CRhC cydnabyddedig nad ydynt yn derbyn buddsoddiad gan Gyngor Chwaraeon, ac nad ydynt felly'n cael archwiliadau rheolaidd fel amod ar y cyllid hwnnw, yn rhan o raglen barhaus/reolaidd o adolygiadau cydnabyddiaeth, gan ddibynnu ar y dull o weithredu gydag adolygiadau cydnabyddiaeth a weithredir gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref.
60. Os nad yw camp yn bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth mwyach, efallai y caiff adolygiad cydnabyddiaeth. Amlinellir y meini prawf ym mharagraff 45.

Proses

61. Efallai y cynhelir adolygiadau cydnabyddiaeth fel rhan o raglen neu oherwydd bod materion penodol yn peri pryder mewn CRhC neu gamp benodol.
62. Efallai y gweithredir proses hunangyflwyno gan Gyngor Chwaraeon a fyddai'n cynnwys y CRhC yn anfon dogfennau allweddol sy'n helpu i ddangos ei fod yn parhau i fodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth. Efallai y defnyddir hunangyflwyno fel rhan o raglen i ddewis y CRhC ac y gofynnir iddo gwblhau Adolygiad Cydnabyddiaeth.
63. Bydd yr adolygiadau cydnabyddiaeth eu hunain yn dilyn yr un fformat yn yr holl Cynghorau Chwaraeon; fodd bynnag bydd pob Gyngor Chwaraeon yn penderfynu ar y canlynol:
- Ei ddull o weithredu rhaglen o Adolygiadau Cydnabyddiaeth;
 - Graddfa ac amledd unrhyw raglen o Adolygiadau Cydnabyddiaeth; ac
 - Y defnydd o broses hunangyflwyno.
64. Gellir cynnal adolygiad cydnabyddiaeth yn unol â disgresiwn y Gyngor (Cynghorau) Chwaraeon. Isod rhestrir sawl sefyllfa a all arwain at gynnal adolygiad cydnabyddiaeth (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):
- Hunanddatganiad CRhC
Mae'r CRhC yn gwirfoddoli nad yw'r gydnabyddiaeth yn berthnasol neu'n briodol mwyach. (Ar ôl trafodaeth, gall hyn arwain yn uniongyrchol at ddadgydnabod heb unrhyw adolygiad ffurfiol.);

- b) Colli aelodaeth rhyngwladol
Nid yw'r CRhC yn aelod mwyach o'r sefydliadau priodol yn y DU/Prydain Fawr/Iwerddon neu yn Ewrop/y Byd;
- c) Rhannu camp
Os oes rhaniad rhyngwladol neu genedlaethol mewn camp o ran disgyblaeth neu sefydliad, gall hyn arwain at fod angen adolygiad cydnabyddiaeth o'r sefydliadau newydd ar wahân;
- d) Cais gan CRhC ar gyfer camp sydd â CRhC cydnabyddedig presennol
Os yw sefydliad yn gwneud cais am gydnabyddiaeth a bod CRhC wedi'i gydnabod eisoes ar gyfer y gamp a'r awdurdodaeth y gwneir cais ar ei chyfer, gall hyn arwain at adolygiad cydnabyddiaeth o'r CRhC cydnabyddedig presennol. Gall hyn fod yn rhan o broses i sefydlu pa sefydliad ddylai fod y CRhC cydnabyddedig ac i roi cyfle i'r CRhC cydnabyddedig presennol ymateb os yw'n credu bod hynny'n briodol;
- e) Pryderon difrifol am y CRhC
Mae gan y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon bryderon difrifol am weithredoedd y CRhC sy'n cwestiynu ei statws o ran a yw'n addas o hyd i fod y CRhC cydnabyddedig.
- Gellir ystyried y canlynol fel esiamplau a allai arwain at bryderon difrifol mewn Cyngor Chwaraeon:
- Nid yw'r CRhC yn cynnal CCB fel y nodir yn ei Gyfansoddiad;
 - Nid yw'r CRhC yn ymateb i gyswllt gan y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon;
 - Nid oes cyfrifon ar gael fel sy'n ofynnol dan brosesau'r CRhC a gofynion y Cyngor Chwaraeon;
 - Nid yw'r Cyfansoddiad yn cydymffurfio'n gyfreithiol neu nid yw'n cynnwys polisiau priodol, fel: Gwrth-Gyffuriau; Diogelu; Cydraddoldeb; Cwynion;
 - Mae Ffederasiwn Rhyngwladol neu CRhC yn y DU neu un o'r Gwledydd Cartref yn mynegi pryderon am statws cydnabyddiaeth CRhC i Gyngor Chwaraeon;
 - Mae'r CRhC yn torri ei reolau ei hun yn sylweddol;
 - Mae camau gweithredu CRhC yn dwyn anfri ar y gamp, y sector chwaraeon neu'r Cyngor Chwaraeon.
- f) Y gweithgaredd yn anghyfreithlon
Ceir newid statudol neu ddeddfwriaethol sy'n gwneud y gamp yn anghyfreithlon.

Meini Prawf Adolygiad Cydnabyddiaeth

65. Asesir adolygiadau cydnabyddiaeth yn erbyn y meini prawf yn unol â'r cyfarwyddyd meini prawf sydd eisoes wedi'i nodi yn adrannau cyn-ymgeisio a chais llawn y polisi hwn.
66. Rhestrir meini prawf yr adolygiadau cydnabyddiaeth yma at ddiben cyfeirio. Gwelir y manylion sy'n sail i'r meini prawf yn yr adrannau cyn-ymgeisio a chais llawn lle mae'r meini prawf wedi'u rhestru yn llawn:
- a) Gweithgaredd chwaraeon;
 - b) Hanes sefydliadol;
 - c) Strwythur cyfansoddiadol;
 - d) Aelodaeth;
 - e) Dylanwad;
 - f) Nifer yr aelodau;
 - g) Strwythur llywodraethu;
 - h) Gweledigaeth a datblygiad y sefydliad; a
 - i) Datblygiad chwaraeon.

Asesu Adolygiadau Cydnabyddiaeth

67. Cynhelir yr adolygiad cydnabyddiaeth gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestredig y CRhC oni bai fod rheswm dros ei gynnal gan Gyngor Chwaraeon Gwlad Gartref arall yn unol â'u disgrisiwn.
68. Ar gyfer CRhC sydd wedi'i gydnabod ar gyfer un Gwlad Gartref, bydd Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref honno'n dosbarthu ei argymhelliad i Banel Cydnabyddiaeth y DU ar gyfer sylwadau ond gwneir yr argymhelliad gan Gyngor Chwaraeon unigol y Wlad Gartref. Wedyn bydd yr argymhelliad yn cael ei anfon at Fwrdd Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref ar gyfer penderfyniad.
69. Ar gyfer cyrff cydnabyddedig y DU neu Brydain Fawr, bydd Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref yn cynnal yr adolygiad ac yn dosbarthu ei asesiad i Banel Cydnabyddiaeth y DU. Wedyn bydd Panel Cydnabyddiaeth y DU yn gwneud argymhelliad casgliadol a'i gyflwyno i Fyrddau'r Cynghorau Chwaraeon priodol, gan ddibynnu ar awdurdodaeth y sefydliad sy'n ymgeisio. Mae angen penderfyniad unfrydol ar draws Byrddau'r Cynghorau Chwaraeon priodol ar gyfer dadgydnabod.

Canlyniad Adolygiad Cydnabyddiaeth

70. Dyma ganlyniadau posib adolygiad cydnabyddiaeth:
- a) Cydnabyddiaeth barhaus;

- b) Cydnabyddiaeth amodol, angen gweithredu mesurau, gydag amserlen briodol ar gyfer cwblhau; neu
- c) Bwrw ymlaen i ddadgydnabod.

9. Dadgydnabod

Pwrpas

- 71. Mae dadgydnabod yn ganlyniad posib adolygiad cydnabyddiaeth. Rhagwelir mai pur anaml fydd dadgydnabod yn digwydd.
- 72. Pwrpas dadgydnabod CRhC yw i sicrhau os nad yw CRhC yn bodloni'r gofynion ar gyfer cydnabyddiaeth mwyach, nad yw'n parhau ar y rhestr gydnabyddedig o CRhC nac yn derbyn y manteision cydnabyddiaeth a amlinellir yn y polisi hwn.

Proses

- 73. Mae dadgydnabod yn ganlyniad proses yr adolygiad cydnabyddiaeth ac felly'r broses er mwyn i sefydliad gael ei ddadgydnabod yw i'r Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon gynnal adolygiad cydnabyddiaeth (yn unol â'r meini prawf ar gyfer adolygiad cydnabyddiaeth a'r asesiad) a all arwain at argymhelliad dadgydnabod.
- 74. Os mai canlyniad adolygiad cydnabyddiaeth yw bwrw ymlaen i ddadgydnabod, mae'n ofynnol i'r Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon ymgynghori â'r CRhC a cheisio gweithredu i adfer y sefyllfa cyn gwneud penderfyniad terfynol i ddadgydnabod. Bydd y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon yn gosod amserlen briodol ar gyfer hyn, a dyddiad olaf ar gyfer gweithredu. Bydd datrysiad a phenderfyniad yn cael eu gwneud mor gyflym â phosib.
- 75. Os na ellir gweithredu i adfer, bydd y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon yn ysgrifennu'n ffurfiol at y CRhC i roi gwybod iddo am y penderfyniad i ddadgydnabod y CRhC.
- 76. Ni fyddai dadgydnabod CRhC o angenrheidrwydd yn arwain at ddadgydnabod y gweithgaredd chwaraeon.
- 77. Dylid nodi, os caiff CRhC ei ddadgydnabod, y bydd y Cynghorau Chwaraeon priodol eisiau ystyried eu sefyllfa o ran cyllid efallai, os yw hynny'n berthnasol.
- 78. Efallai y caiff CRhC cydnabyddedig sydd wedi'i ddadgydnabod ailymgeisio am gydnabyddiaeth yn unol â'r polisi (gall hyn fod yn amodol ar roi sylw i'r problemau a arweiniodd at ddadgydnabod).

10. Newid Disgyblaeth

- 79. Mae disgyblaeth yn gangen o weithgaredd chwaraeon sy'n cynnwys un neu fwy o elfennau. Er enghraifft, mae beicio trac yn ddisgyblaeth mewn beicio.

Pwrpas

80. Mae'n ofynnol i CRhC cydnabyddedig wneud cais am newid a fwriedir i weithgaredd chwaraeon sy'n cynnwys ychwanegu neu ddileu disgyblaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor Chwaraeon i sicrhau bod y disgyblaethau ym mhob gweithgaredd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Gweithgaredd Chwaraeon ac Unigrywiaeth a amlinellir yn y polisi hwn. Rhaid i'r Cyngor Chwaraeon sicrhau mai CRhC yw'r CRhC priodol i lywodraethu a datblygu'r ddisgyblaeth honno.

Proses

81. Mae'r broses newid disgyblaeth yn cynnwys ffurflen syml ac arni gall CRhC roi manylion am y newid arfaethedig i'w ddisgyblaethau ac esboniad dros y newid hwn, gan gyfeirio at y gweithgaredd chwaraeon, unigrywiaeth, y galw am y gamp a strwythur y ddisgyblaeth ar lefel ryngwladol. Gellir cael y ffurflen gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestredig y CRhC.
82. Mae'r ffurflen yn gofyn i'r CRhC amlinellu'r canlynol:
- Y newid mewn disgyblaeth y gwneir cais amdano;
 - Y rheswm dros y newid (os yw'n gais am ddisgyblaethau ychwanegol, rhaid i'r ymgeisydd esbonio'n gryno hanes y ddisgyblaeth, y gweithgarwch presennol yn y ddisgyblaeth, nifer y cyfranogwyr, a'i strwythur ar lefel ryngwladol. Os yw'r cais am newid disgyblaeth am ddileu, rhaid i'r ymgeisydd esbonio'r rhesymau dros y newid hwnnw a beth fydd yn digwydd i unrhyw gyfranogwyr sydd ar ôl);
 - Ymwybyddiaeth o CRhC eraill sy'n ymwneud â'r disgyblaeth.
83. Bydd newid disgyblaeth yn berthnasol i'r gamp ledled y DU. Os oes CRhC yn y DU neu Brydain Fawr yn bodoli, ef fydd yr ymgeisydd fel rheol. Os nad oes CRhC yn y DU neu Brydain Fawr ar gyfer y gamp honno, caiff unrhyw un o CRhC y Gwledydd Cartref wneud y cais am newid disgyblaeth ac, os bydd yn llwyddiannus, bydd yn berthnasol fel rheol wedyn i holl CRhC y Gwledydd Cartref.

Asesu Newid Disgyblaeth

84. Cynhelir yr asesiad newid disgyblaeth gan Gyngor Chwaraeon y Wlad Gartref lle mae pencadlys neu swyddfa gofrestredig y CRhC sy'n gwneud y cais.
85. Bydd Panel Cydnabyddiaeth y DU yn adolygu'r asesiad cyn gwneud argymhelliad ar gyfer penderfyniad i Fyrddau Cynghorau Chwaraeon y Gwledydd Cartref.

Penderfyniad Newid Disgyblaeth

86. Dyma'r canlyniadau posib i gais newid disgyblaeth:

- a) Cymeradwyo newid disgyblaeth;
- b) Heb gymeradwyo newid disgyblaeth.

11. Y Broses Ar Ôl Penderfyniadau

Cyfarfod Ar Ôl Penderfyniad

87. Os yw Ymgeisydd yn dymuno cael adborth pellach ar unrhyw rai o'r penderfyniadau neu'r prosesau o dan y polisi hwn, gellir trefnu cyfarfod ar ôl y penderfyniad gyda chynrychiolwyr perthnasol o'r panel cydnabyddiaeth.

Apeliadau

88. Gweler yr atodiad 'Rheolau a Gweithdrefnau Apeliadau Cydnabyddiaeth'.

Atodiad

Rheolau a Gweithdrefnau Apeliadau Annibynnol Cydnabyddiaeth

Rheolau a Gweithdrefnau Apeliadau Annibynnol Cydnabyddiaeth

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn datgan y broses apelio yn erbyn penderfyniadau'r Cynghorau Chwaraeon (fel y diffinnir yn 'Diffiniadau' isod) neu Banel Cydnabyddiaeth y DU. Dylai unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno apêl ddarllen Polisi Cydnabyddiaeth y Cynghorau Chwaraeon a Rheolau 1 a 2 isod i ddechrau yn benodol.

Bydd Sport Resolutions UK ("SRUK") yn rheoli'r broses ar gyfer pob apêl annibynnol. Dyma fanylion cyswllt SRUK:

Sport Resolutions (UK)

1 Salisbury Square

Llundain

EC4Y 8AE

Rhif Ffôn: 020 7036 1966

Rhif Ffacs: 020 7936 2602

E-bost: resolve@sportresolutions.co.uk

Diffiniadau

Ystyr "Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref" yw Cynghorau Chwaraeon y Gwledydd Cartref, sef Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru (Sport England, Sport Northern Ireland, sportscotland a Chwaraeon Cymru).

Ystyr "CRhC" yw corff rheoli cenedlaethol camp yn y DU neu Wlad Gartref fel sy'n berthnasol. Yng Ngogledd Iwerddon mae Cangen Ulster o Gorff Rheoli sy'n gweithredu ar gyfer Iwerddon gyfan sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon wedi'i gynnwys o dan y pennawd CRhC at ddibenion Polisi Cydnabyddiaeth y Cynghorau Chwaraeon a'r Rheolau a'r Gweithdrefnau.

Ystyr "Rheolau" fydd Rheolau a Gweithdrefnau Apeliadau Annibynnol Cydnabyddiaeth (sef yr Atodiad hwn i Bolisi Cydnabyddiaeth y Cynghorau Chwaraeon 2017)

Ystyr "Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon" fydd pob ac unrhyw Gyngor Chwaraeon mewn Gwlad Gartref a/neu UK Sport fel sy'n briodol.

Ystyr "Diwrnod Gwaith" yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu unrhyw wyliu cyhoeddus yn y Wlad Gartref briodol ac, yn achos UK Sport, gwyliau cyhoeddus yn Lloegr.

1. Penderfyniadau y Gellir Apelio yn eu Herbyn

1.1 Efallai na fydd apêl eisiau ailddadlau rhinweddau'r penderfyniad ei hun, dim ond didwylledd y broses o wneud penderfyniadau. Yn yr un modd, nid yw apêl yn gyfle i gyflwyno tystiolaeth neu ffeithiau newydd. Mae Rheolau 1.1.1 i 1.1.4 isod yn datgan y mathau o benderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn:

- 1.1.1. penderfyniad cyn-ymgeisio;
- 1.1.2. penderfyniad cais llawn;
- 1.1.3. penderfyniad dadgydnabod; a / neu
- 1.1.4. penderfyniad newid disgyblaeth.

2. Sail ar gyfer Apelio

2.1. Dyma'r unig seiliau cyfreithiol ar gyfer apelio:

- 2.1.1. bod y corff a wnaeth y penderfyniad wedi camddeall rhan arwyddocaol o'r cam cyn-ymgeisio neu'r cais llawn neu wedi camddeall gwybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cam cyn-ymgeisio neu'r cais llawn; neu
 - 2.1.2. bod y corff a wnaeth y penderfyniad wedi methu ystyried yr wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd fel rhan o'r cam cyn-ymgeisio neu'r cais llawn; neu
 - 2.1.3. nid oedd y corff a wnaeth y penderfyniad wedi dilyn y weithdrefn berthnasol yn briodol neu ei gweithredu'n rhesymol;
- a dyma'r "Sail ar gyfer Apelio".

2.2. I osgoi unrhyw amheuaeth (ac er gwaethaf unrhyw fesurau cyfreithiol eraill sydd ar gael i chi), nid yw anghydfod ynghylch ein polisïau cyhoeddedig neu unrhyw bolisi llywodraethol yn sail gyfreithlon ar gyfer apelio o dan y Rheolau.

3. Hysbysu am Apêl

3.1. Rhaid i'r sefydliad sy'n dymuno apelio (yr "Apelydd") gyflwyno cais ysgrifenedig i SRUK o fewn 40 Diwrnod Gwaith i dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad ei fod yn dymuno apelio. Bydd hysbysiad ysgrifenedig a anfonir i SRUK yn gweithredu, at ddibenion Rheol 11.3, fel cyflwyno.

3.2. Rhaid i'r cais ysgrifenedig gynnwys y canlynol:

- 3.2.1. enw a chyfeiriad yr Apelydd (ac unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol neu arall);
- 3.2.2. datganiad byr yn disgrifio natur ac amgylchiadau'r penderfyniad y mae'r Apelydd yn dymuno apelio yn ei erbyn;
- 3.2.3. Sail/Seiliau'r Apêl. Nodir Sail yr Apêl yn Rheol 2.1; a
- 3.2.4. rhagor o fanylion am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn (gan gynnwys copïau o unrhyw ddogfennau sy'n cefnogi eich cais);

ynghyd â "Hysbysiad o Apêl".

3.3. Os derbynnir cais ysgrifenedig am apelio y tu allan i'r terfyn amser o 40 Diwrnod Gwaith, a bod amgylchiadau allanol yn gyfrifol am yr oedi, efallai y bydd SRUK yn

cytuno i anwybyddu'r terfyn amser. Rhaid i'r Apelydd ddatgan y rhesymau dros yr oedi yn y cais am apelio.

3.4. Ar ôl derbyn yr Hysbysiad o Apêl, bydd SRUK yn anfon copi ar unwaith i bob un Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon cysylltiedig â'r penderfyniad sy'n destun yr Apêl.

4. Penodi Panel Apeliadau

4.1. Bydd SRUK yn enwebu ac yn penodi Panel Apeliadau Annibynnol ("Panel SRUK") o fewn 10 Diwrnod Gwaith i dderbyn yr Hysbysiad o Apêl.

4.2. Oni bai fod y partïon yn cytuno i benodi unig gymrodeddwr, neu os bydd SRUK yn rhoi cyfarwyddyd y gall unig gymrodeddwr wrando ar yr apêl o dan Reol 4.6 isod, bydd Panel SRUK yn cynnwys tri aelod, sef cadeirydd cymwys yn gyfreithiol ("y Cadeirydd") a dau aelod lleyg ("Aelodau Panel SRUK").

4.3. Daw'r Cadeirydd o grŵp o wyth o unigolion cymwys yn gyfreithiol oddi ar restr gan SRUK.

4.4. Daw'r ddau Aelod Lleyg o Banel SRUK oddi ar Restr Arbenigol Panel Cymrodeddwyr SRUK.

4.5. Rhaid i Aelodau Panel SRUK gadarnhau i SRUK eu bod yn annibynnol ac yn gallu gweithredu'n ddiuedd. Ni fydd unrhyw rai o Aelodau Panel SRUK o sefydliad yr Apelydd, nac yn gysylltiedig ag ef, na'r Cyngor Chwaraeon perthnasol. Ni fydd unrhyw rai o Aelodau Panel SRUK ar unrhyw adeg wedi ymwneud mewn unrhyw ffordd ag unrhyw agwedd ar y penderfyniad sy'n destun yr apêl.

4.6. Efallai y bydd SRUK yn rhoi cyfarwyddyd, neu efallai y bydd y partïon yn cytuno, i unig gymrodeddwr weithredu fel Panel SRUK. Gall unig gymrodeddwr o'r fath ddod o'r grŵp o wyth o unigolion cymwys yn gyfreithiol oddi ar restr gan SRUK. Os penodir unig gymrodeddwr i benderfynu ynghylch yr Apêl, bydd pob cyfeiriad at y "Cadeirydd" yn y Rheolau'n golygu'r unig gymrodeddwr oni bai fod y cyd-destun yn golygu fel arall.

4.7. Mae gan y naill barti neu'r llall hawl i herio annibyniaeth a didueddrwydd unrhyw Aelod a enwebir i Banel SRUK ar sail dda a gyda thystiolaeth. Os bydd unrhyw barti'n bwriadu herio enwebiad i Banel SRUK, bydd y parti hwnnw, o fewn 5 Diwrnod Gwaith i hysbysu gan SRUK am yr enwebiad, yn cyflwyno yn ysgrifenedig i SRUK y rhesymau pam mae'r parti hwnnw'n herio penodiad yr enwebai.

4.8. Oni bai fod yr enwebai sy'n cael ei herio'n tynnu ôl neu bod y parti arall yn cytuno â'r her, bydd Cadeirydd Panel SRUK (oni bai mai penodiad y Cadeirydd sy'n cael ei herio ac os felly, bydd SRUK, yn gweithredu drwy ei Gyfarwyddwr, yn penderfynu), yn penderfynu ynghylch yr her ac yn gofyn i SRUK enwebu enwebai arall. Penderfynir ynghylch unrhyw her gan y ddau aelod arall o Banel SRUK yn unig. Bydd SRUK yn hysbysu'r partïon yn unol â hynny.

4.9. Yn absenoldeb unrhyw her i'r enwebiadau a gynigir o fewn 5 Diwrnod Gwaith o hysbysu, bydd SRUK yn penodi Panel SRUK.

4.10. Yn unol â Rheol 4.11, bydd y sedd gymrodeddu yn Llundain neu leoliad arall y mae'r partïon yn cytuno iddo. Cynhelir yr Apêl yn unol â deddfau'r wlad lle mae'r Cyngor Chwaraeon perthnasol wedi'i leoli.

4.11. Fel rheol cynhelir gwrandawiadau yn Llundain. Fodd bynnag, os bydd yr amgylchiadau'n gwarantu hynny, ar ôl ymgynghori â'r holl bartïon, efallai y bydd y Cadeirydd yn penderfynu cynnal gwrandawriad mewn lleoliad arall ac yn rhoi cyfarwyddiadau priodol yn gysylltiedig ag unrhyw wrandawriad. Bydd y Cadeirydd yn ystyried anghenion ac amgylchiadau unigol yr Apelydd wrth benderfynu ynghylch lleoliad y gwrandawriad. Hefyd efallai y bydd y Cadeirydd yn penderfynu ynghylch cynnal cyfarfod mewn lleoliad neu ei gynnal dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo.

5. Cynnal Gweithrediadau

5.1. Bydd Panel SRUK yn gweithredu'r Rheolau ac yn gwneud ei benderfyniadau'n seiliedig ar degwch a chyfiawnder naturiol; sicrhau bod Panel SRUK a'i aelodau'n ddduedd ac annibynnol; ymatal rhag gweithredu fel eiriolwr ar ran y naill barti na'r llall; a sicrhau bod y partiïon yn cael cyfle priodol i gyflwyno eu hachos.

5.2. Ar ôl penodi Panel SRUK, mae'r weithdrefn ganlynol yn berthnasol:

5.2.1. Rhaid i'r Apelydd gyflwyno Datganiad o Hawliad o fewn 15 Diwrnod Gwaith i gael hysbysiad bod Panel SRUK wedi'i benodi. Rhaid i'r Datganiad o Hawliad ddatgan y canlynol yn llawn:

5.2.1.1. unrhyw ffeithiau, cyfraith neu reolau y mae'r Apelydd yn dibynnu arnynt;

5.2.1.2. y sail (seiliau) berthnasol yn Rheol 2.1; ac

5.2.1.3. y rhyddhad a hawlir.

5.2.2. Bydd y terfyn amser i gyflwyno Datganiad o Hawliad yn cynnwys terfyn amser unrhyw wrthwynebiad i benodi Aelod o Banel SRUK.

5.2.3. Caiff y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon perthnasol (yr "Ymatebydd"), o fewn 15 Diwrnod Gwaith i dderbyn y Datganiad o Hawliad, gyflwyno "Ymateb". Rhaid i'r Ymateb ddatgan y canlynol yn llawn:

5.2.3.1. y ffeithiau, y gyfraith neu'r rheolau hynny yn y Datganiad o Hawliad mae'r Ymatebydd yn eu cyfaddef neu'n eu gwadu;

5.2.3.2. y Seiliau ar gyfer Apêl ac unrhyw ffeithiau, cyfraith neu reolau eraill mae'n dibynnu arnynt.

5.2.4. Os yw'r Apelydd yn dymuno anfon Ateb i'r Ymateb ("yr Ateb"), rhaid iddo wneud hynny o fewn 15 Diwrnod Gwaith i dderbyn yr Ymateb.

5.3. Gall y terfynau amser yn Rheol 5.2 gael eu hamrywio drwy gytundeb rhwng y partiïon a Chadeirydd Panel SRUK.

5.4. Rhaid i bob parti gyflwyno ar yr un pryd â chyflwyno'r Datganiad o Hawliad, Ymateb neu Ateb (fel sy'n berthnasol) gopïau o'r holl ddogfennau y mae'r parti dan sylwi'n dibynnu arnynt, oni bai fod y ddogfen wedi'i chyflwyno'n flaenorol gan unrhyw barti.

5.5. Gall Panel SRUK fwrw ymlaen gyda'r Apêl a gwneud y penderfyniad a/neu argymhelliad hyd yn oed os bydd yr Ymatebydd yn methu cyflwyno Ymateb neu os bydd yr Apelydd yn methu cyflwyno Ateb.

5.6. Bydd Panel SRUK fel rheol yn ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig pob parti ac yn penderfynu ynghylch yr Apêl ar sail y papurau. Fodd bynnag, efallai y bydd Panel SRUK yn cytuno i wrando ar dystiolaeth neu gyflwyniad cyfreithiol neu gyflwyniad arall mewn achos penodol, os yw'n credu bod hynny'n briodol. Os oes gwrandawriad i'w gynnal, bydd y Rheolau isod yn berthnasol.

5.7. Mae gan Banel SRUK ddisgresiwn llwyr i dderbyn neu wrthod tystiolaeth a gyflwynir gan unrhyw barti pa un ai y cyflwynwyd y dystiolaeth honno cyn i'r parti wneud y penderfyniad sy'n destun yr Apêl.

5.8. Os yw Panel SRUK yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff Panel SRUK ohirio'r gweithrediadau at bwrpas ystyried tystiolaeth newydd.

6. Cynnal Gwrandawiadau

6.1. Bydd y Cadeirydd yn trefnu dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer unrhyw wrandawiadau ar gyfer cyfarwyddiadau neu ar gyfer yr Apêl a bydd yn rhoi cymaint o rybudd â phosib i'r partïon.

6.2. Bydd pob gwrandawriad yn breifat a'r gweithrediadau'n gyfrinachol oni bai fod Panel SRUK a'r partïon yn cytuno fel arall.

6.3. Y Cadeirydd fydd yn dewis y weithdrefn a ddilynir mewn unrhyw wrandawriad, ar yr amod bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn unol â'r rheolau perthnasol ar gyfer tegwch a chyfiawnder naturiol, gyda chyfle rhesymol i bob parti gyflwyno tystiolaeth (gan gynnwys yr hawl i alw a chwestiynu tystion), annerch Panel SRUK a chyflwyno ei achos.

6.4. Efallai y bydd y gwrandawiadau'n mynd rhagddynt hyd yn oed os bydd unrhyw rai o'r partïon, eu tystion neu eu harbenigwyr yn methu ymddangos ac efallai y bydd Panel SRUK yn gwneud penderfyniad.

6.5. Mae gan yr Apelydd a'r Ymatebydd hawl i gymorth neu gynrychiolaeth gan bersonau o'u dewis ac, os gwrandawrir ar dystiolaeth lafar (tystiolaeth tyst neu arbenigwr, er enghraifft), dim ond ym mhresenoldeb yr Apelydd a'r Ymatebydd, neu eu cynorthwy-ydd/cynrychiolydd, ddylid gwrando arni, a gaiff gyfle teg i gwestiynu unrhyw dyst.

6.6. Os bydd Apelydd yn methu mynychu gwrandawriad, boed yn bersonol neu drwy gyswllt fideo, ar y rhyngwyd neu dros y ffôn, ar y dyddiad a'r amser a drefnwyd, gall yr Ymatebydd wneud cais i Banel SRUK wneud penderfyniad yn absenoldeb yr Apelydd.

6.7. Os bydd Panel SRUK yn penderfynu y dylid cynnal gwrandawriad, ni chaiff ei gynnal yn swyddfeydd unrhyw Ymatebydd y mae ei benderfyniad yn destun yr Apêl.

7. Tystion

7.1. Os yw Panel SRUK wedi penderfynu bod gwrandawriad i gael ei gynnal, rhaid i'r partïon roi gwybod i Banel SRUK a'r partïon eraill cyn gynted â phosib ac oddi mewn i unrhyw derfynau amser a bennir gan Banel SRUK pwy yw unrhyw dystion mae'n dymuno eu galw. Os bydd Panel SRUK yn gofyn am hynny, bydd pob parti'n datgelu ar ffurf datganiad tyst wedi'i lofnodi gynnwys a thestun y dystiolaeth y bydd pob tyst yn

dibynnu arni yn y gwrandawriad a sut mae'r dystiolaeth yn berthnasol i bwyntiau'r mater.

7.2. Os yw Panel SRUK wedi penderfynu bod gwrandawriad i gael ei gynnal, mae'r partion yn gyfrifol am argaeledd a chostau'r tystion sydd i gael eu galw. Gyda chytundeb y partion, gall Panel SRUK eithrio tyst rhag ymddangos yn y gwrandawriad os yw wedi cyflwyno datganiad tyst wedi'i lofnodi eisoes. Hefyd gall Panel SRUK gyfyngu ar neu wrthod ymddangosiad gan unrhyw dyst ar sail amherthnasedd.

8. Arbenigwyr

8.1. Gall Panel SRUK, ar yr amod ei fod wedi hysbysu'r partion fydd â hawl i wrthwynebu costau o'r fath, benodi un neu fwy o arbenigwyr i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Banel SRUK ar faterion penodol ac efallai y bydd yn gofyn i barti roi i arbenigwr o'r fath unrhyw wybodaeth y mae Panel SRUK yn ei hystyried yn berthnasol neu lunio, neu ddarparu mynediad i, unrhyw ddogfennau, nwyddau neu eiddo y mae Panel SRUK yn eu hystyried yn berthnasol i'w harolygu gan yr arbenigwr. Telir costau'r arbenigwr gan y partion yn gyfartal.

8.2. Gall Panel SRUK (oni bai fod y partion yn cytuno fel arall) roi cyfarwyddyd i dyst arbenigol roi dystiolaeth naill ai ger bron gwrandawriad ar ffurf adroddiad ysgrifenedig a/neu yn y gwrandawriad ar ffurf adroddiad llafar, ac efallai hefyd y bydd yn gofyn i dyst arbenigol fynychu gwrandawriad fel bod Panel SRUK neu'r partion yn cael gofyn cwestiynau iddo ef neu hi a gall y partion gyflwyno tystion arbenigol eraill er mwyn tystio ynghylch pwyntiau'r mater.

9. Penderfyniadau

9.1. Wrth wneud ei benderfyniad bydd Panel SRUK yn penderfynu a yw'r Apelydd wedi llwyddo i sefydlu un o'r Seiliau perthnasol ar gyfer Apêl fel y nodir yng Nghymal 2.1.

9.2. Bydd Panel SRUK yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 15 Diwrnod Gwaith i'r canlynol:

9.2.1. derbyn yr Ateb; neu

9.2.2. y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr Ateb, pa un bynnag yw'r hwyraf.

9.3. Os oes gwrandawriad wedi'i gynnal, bydd Panel SRUK yn gwneud penderfyniad o fewn 15 Diwrnod Gwaith i ddyddiad y gwrandawriad.

9.4. Bydd Panel SRUK yn penderfynu ynghylch unrhyw fater yn ôl mwyafrif. Ni chaiff unrhyw aelod o Banel SRUK ymatal rhag dod i benderfyniad. Ni fydd Panel SRUK yn datgelu i unrhyw barti a oedd unrhyw benderfyniad a wnaed yn y diwedd gan Aelodau Panel SRUK yn unfrydol neu fwyafrifol.

9.5. Os bydd Panel SRUK yn gweld bod un o'r Seiliau ar gyfer Apêl wedi'u datgan, byddant yn rhoi'r penderfyniad y gwnaed apêl yn ei erbyn i'r naill ochr a chaiff y penderfyniad ei yrru'n ôl at y Cyngor (Cyngorau) Chwaraeon perthnasol.

9.6. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan Banel SRUK yn ysgrifenedig ac wedi'i ddyddio a'i lofnodi gan Banel SRUK, a bydd, oni bai y cytunir fel arall gan y partion, yn cynnwys y rhesymau y cafodd eu seilio arnynt.

9.7. Mae penderfyniadau Panel SRUK yn derfynol ac yn rhwymo'r partïon.

9.8. Bydd SRUK yn cyflwyno penderfyniad ysgrifenedig Panel SRUK, sy'n gyfrinachol, i'r partïon.

9.9. Heb ragfarn yng nghyswllt Rheolau 6.2 a 9.8, caiff y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon perthnasol, heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Apelydd, ar ddiwedd y gweithrediadau, gyhoeddi unrhyw adroddiad neu ddatganiad i'r wasg sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

9.9.1. manylion y gweithrediadau o dan y Rheolau (gan gynnwys unrhyw ffeithiau a honnwyd fel cefnogaeth)

9.9.2. unrhyw bynciau a godwyd gan Banel SRUK yn yr ymchwiliad, ac

9.9.3. y penderfyniad a wnaed.

10. Costau

10.1. Yn gyffredinol, y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon cysylltiedig â'r penderfyniad sy'n sail yr Apêl fydd yn gyfrifol am gost ac adnoddau gweinyddu Panel SRUK, ar y sail ganlynol:

10.1.1 os yw'r Apêl yn ymwneud â CRhC mewn Gwlad Gartref benodol, bydd Cyngor Chwaraeon y Wlad Gartref berthnasol yn gyfrifol am unrhyw gostau;

10.1.2 os yw'r Apêl yn ymwneud â CRhC ym Mhrydain Fawr, Sport England, Chwaraeon Cymru a sportscotland fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau yn gyfartal, ac eithrio os yw'n gamp Olympaidd neu Baralympaidd ac, os felly, bydd yn ofynnol i UK Sport gyfrannu cyfran gyfartal tuag at y costau hefyd;

10.1.3 os yw'r Apêl yn ymwneud â CRhC yn y DU, Sport England, Chwaraeon Cymru, sportscotland a Sport Northern Ireland fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau yn gyfartal, ac eithrio os yw'n gamp Olympaidd neu Baralympaidd ac, os felly, bydd yn ofynnol i UK Sport gyfrannu cyfran gyfartal tuag at y costau hefyd.

10.2. Os dyfernir gwrandawriad llafar, byddai costau gweinyddol a phanel SRUK yn cael eu talu, yn y lle cyntaf gan y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon y cyflwynwyd yr apêl yn ei erbyn. Gall y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon perthnasol ofyn am orchymyn i ad-dalu costau gweinyddol a phanel o'r fath fel rhan o unrhyw gais am orchymyn o dan Reol 10.3 i dderbyn costau'r Apêl yn gyffredinol.

10.3. Caiff Panel SRUK wneud gorchmynion mewn perthynas â chostau partïon yr Apêl.

10.4. Yn amodol ar ddyfarnu gorchymyn ar gyfer costau i'r Apelydd o dan Reol 10.3, ni fydd y Cyngor (Cynghorau) Chwaraeon perthnasol yn ad-dalu costau'r Apelydd, nac yn ad-dalu costau unrhyw gynrychiolydd, tyst neu gynorthwy-ydd wrth ddelio â'r Apêl.

11. Rheolau Cyffredinol

11.1. Bydd y partïon yn cyfathrebu drwy SRUK. Gall Cadeirydd Panel SRUK roi cyfarwyddyd y gall cyfathrebu ddigwydd yn uniongyrchol rhwng y partïon gyda chopïau

o'r holl ohebiaeth a'r dogfennau i gael eu hanfon ar yr un pryd i Banel SRUK ac SRUK.

11.2. Dosberthir neu anfonir yr holl gyfathrebu gyda phost dosbarth cyntaf, ar ffacs neu ar e-bost at y partiön yn y cyfeiriadau a gyflwynwyd i SRUK.

11.3. Dyddiad tybiedig ar gyfer cyflwyno dogfennau:

Os caiff ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf, tybir bod yr hysbysiad neu'r dull cyfathrebu arall wedi cael ei roi ar y "Diwrnod Gwaith" yn dilyn diwrnod ei anfon. Os trosglwyddir ar ffacs neu e-bost cyn 5pm (GMT yn y DU) ar Ddiwrnod Gwaith, tybir bod yr hysbysiad neu'r dull cyfathrebu arall wedi cael ei roi ar y Diwrnod Gwaith hwnnw. Os trosglwyddir ar ddiwrnod heb fod yn Ddiwrnod gwaith, am neu ar ôl 5pm (GMT yn y DU) ar Ddiwrnod Gwaith, tybir bod yr hysbysiad neu'r dull cyfathrebu arall wedi cael ei roi ar y Diwrnod Gwaith nesaf.

11.4. Bydd preswylfan hysbys diwethaf parti, neu ei fan busnes, yn gyfeiriad dilys at bwrpas unrhyw hysbysiad neu ddull cyfathrebu arall oni bai fod hysbysiad am newid y cyfeiriad hwnnw wedi'i anfon at yr holl bartiön ac i SRUK.

11.5. At bwrpas cyfrif cyfnod o amser o dan y Rheolau, bydd y cyfnod yn dechrau gweithredu ar y diwrnod ar ôl y diwrnod pryd cyflwynir hysbysiad neu ddull cyfathrebu arall. Nid yw dyddiau nad ydynt yn Ddyddiau Gwaith sy'n digwydd yn ystod y cyfnod yn cael eu cynnwys wrth gyfrif rhediad y cyfnod hwnnw.

11.6. Os bydd parti'n bwrw ymlaen ag Apêl er gwaetha'r ffaith na chydymffurfiwyd â darpariaeth neu ofyniad o dan y Rheolau, heb ddatgan ei wrthwynebiad yn brydlon, mae'r parti hwnnw wedi ildio ei hawl i wrthwynebu.

11.7. Os bydd unrhyw Aelod o Banel SRUK, ar ôl ei benodi i Banel SRUK, yn marw, gwrthod neu, ym marn y Cadeirydd, yn datblygu i fod yn anabl neu'n anaddas i weithredu, bydd y Cadeirydd yn gofyn i SRUK benodi Aelod arall i Banel SRUK yn ei le ef/hi. Os bydd y Cadeirydd, ar ôl ei benodi i Banel SRUK, yn marw, gwrthod neu, ym marn y partiön a Chyfarwyddwr SRUK, yn datblygu i fod yn anabl neu'n anaddas i weithredu, bydd SRUK yn penodi Cadeirydd yn ei le.

11.8. Os bydd mwyafrif Panel SRUK o'r farn bod un Aelod o Banel SRUK yn gwrthod neu'n methu cydymffurfio â'r Rheolau neu unrhyw gyfraith berthnasol i'r Apêl, neu wneud penderfyniad a/neu unrhyw ddyfarniad, ar ôl cael cyfle rhesymol i wneud hynny, caiff Aelodau eraill Panel SRUK wneud cais i Gyfarwyddwr SRUK am gael ei wared ef/hi a bydd Cyfarwyddwr SRUK yn penderfynu yn unol â'i ddisgresiwn llwyr a ddylai benodi aelod yn ei le.

11.9. Llywodraethir y Rheolau gan ddeddfau'r wlad y mae'r Cyngor Chwaraeon perthnasol wedi'i leoli ynddi, oni bai fod yr Apêl yn apêl cydnabyddiaeth sy'n berthnasol i sefydliad yn yr Alban. Os felly, llywodraethir y Rheolau gan Gyfraith yr Alban.